# Castell y Mis:



## Castell Coch

1. Darganfyddwch straeon rhyfeddol sydd wedi’u hysbrydoli gan Gastell Coch. Nawr, ewch ati i ateb y cwestiynau darllen a deall am y straeon
2. Dysgwch am gymesuredd, datryswch broblemau difyr a darganfyddwch ffeithiau newydd am Gastell Coch trwy glicio yma.
3. Ewch ati i chwarae gêm fwrdd am Gastell Coch a Chastell Caerdydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

# Cwis yr Wythnos: 15.01.2024

1. Rhestrwch holl gemau Cymru yng nghystadleuaeth Y Chwe Gwlad yn y drefn chwarae.

2. Beth yw enwau hyfforddwyr timau rygbi Cymru? (tîm y dynion a thîm y menywod)

3. Pwy yw capteiniaid timau rygbi Cymru (menywod a dynion) ar gyfer cystadleuaeth Y Chwe Gwlad?





Gwefan Ddefnyddiol

# Chwaraeon y Mis







HOCKEY WALES
HOCI CYMRU


## Hoci

(defnyddiwch y gwersi sydd ar gael yn PE Planning)

1. Gofynnwch i gynorthwydd i ddysgu rhai o sgiliau hoci i grwp o ddysgwyr neu
2. Gofynnwch i'th athro os gellir ffocysu ar hoci o fewn gwersi chwaraeon y tymor hwn.














# Cwis yr Wythnos:
# 22.01.2024

1. Yn ystod pa fis mae Diwrnod Owain Glyndŵr?

2. Pa ganran o dir Cymru sydd mewn trefi?
A).Tua 10%
B). Tua 50%
C). Tua 75%

3. Beth yw ieithoedd swyddogol Cymru?

Pwynt bonws! Enwch hwy!

# Digwyddiad y Mis:



## Hen Galan

1.Dysgwch am yr Hen Galan trwy glicio yma.
2. Dysgwch y gân boblogaidd sy'n cael ei chanu wrth fynd o ddrws i ddrws, 'Blwyddyn Newydd Dda…'
3. Ewch ati i greu'r Fari Lwyd gan ddefnyddio hen focs esgidiau fel penglog y ceffyl, defnydd gwyn, rubannau a chlychau. Ewch o gwmpas yr ysgol i hel calennig.

# Man aros y Mis:





## Gwesty Morgans

(Nid her annibynnol yw hon, ond yn hytrach cyfres o 6 gwers yn seiliedig ar bysgod a phrydau bwyd pysgod)

Lleolir Gwesty Morgans ger y môr yn Abertawe.

Ewch ati i ddysgu mwy am bysgod a phrydau bwyd pysgod trwy ddilyn y 6 gwers ar y wefan yma.



# Cwis yr Wythnos: 29.01.2024

1. Rhestrwch 3 barc siopa o fewn Dinas a Sir Abertawe.

2. Rhestrwch 4 siop trîn gwallt sydd yn yr ardal leol.

3. Rhestrwch 5 ysgol sydd o fewn eich milltir sgwâr.



